

5 Dirwyn y fwrdeisdref i ben; y ddeddf cau-r tir

Ar ddechrau'r ymchwiliad i gyflwr y fwrdeisdref oddeutu 1815, oherwydd na cheid unrhyw dystiolaeth ynglŷn â nifer pendant gwŷr y Gorfforaeth, cyfeiriwyd at y corff llywodraethol fel "y maer, y beiliaid, a'r bwrdeisiaid." Ymddengys mai y corff hwn a fyddai yn dewis y maer a dau henadur bob blwyddyn, ond nid oedd ganddo unrhyw awdurdod i gosbi troseddwy'r erbyn y gyfraith, ac nid oedd yr un o'i aelodau yn ustus. Wrth gwrs, bu amser pan feddai *Court of Record* y fwrdeisdref awdurdod ar bob dyled a chytundeb &c., oddieithr *franktenant* a hawliau ynglŷn â'r Goron; ond yn amser yr ymchwiliad ni feddai'r Gorfforaeth na chyllid, na threuliau na dyled, ac ni chedwid cyfrifon o unrhyw fath. Defnyddid y rheinws fel *warehouse* gan ryw *grocer*.

Cyflwynodd y Cofiadur, Mr. Robert Prichard,¹ ddisgrifiad i'r dirprwywyr derfynau y fwrdeisdref, wedi ei gopio o lawysgrif a oedd yn eiddo'r Parchedig Evan Lloyd o Faes-y-porth, Llangeinwen, sef maer olaf Corfforaeth Niwbwrch,² dyddiedig 25 Mai 1813.³

"Gan gychwyn yng Nghlynnog Fechan, drwy Derfyn Beuno i Ddolgerran; ar draws Cors Llangeinwen i afon Braint, yn agos i Ruddgaer; i Aber-menai; oddiyno i Rô-bach; yna yn agos i'r Hendai ac ymlaen i Fryn Rhedyn; drwy Gaer Tywyn i briffordd y brenin; i Faen Llwyd, ac ymlaen gan amgylchynu ychydig i Lain y groes-faen ac i Blas-uchaf; oddi yno i Dir Bôdfel a Thy Mawr; yna, dipyn yn igam-ogam, i Fryn Madog ym Morfa Malltraeth; i Gerrig Mawr, a heibio Hendre'r Orsedd i Glyn-têg a Chefn Mawr Uchaf; ymlaen yn agos i Hendre'r Orsedd i Dafarn Bridd; yna Caea Brychion, i Lyn y Rhoshir; drwy Dir Nêst i Fryn Sinc; yn agos i'r Ysgubor Ddegwm, yna amgylchu Cerrig y Gwŷdd i Glynnog, o'r lle y cychwynasom gyntaf".⁴

1 Taid y diweddar Thomas Prichard, Llwydiarth Esgob.

2 Yn llyfrau y Gorfforaeth ceir ei fod wedi ei benodi yn faer cyn hyn, sef ar 21 Tachwedd 1809, ac mai Holland Griffith, Ysw., oedd yn faer y flwyddyn cyn hynny.

3 Yn ôl map y degwn (*Tithe Commutation Map*, 1838), ymddengys fod plwyf Niwbwrch yn cynnwys 4150 o acer i -1172 acer yn dir cynnyrch, 1453 yn weundir a thir pori, 1268 yn dir tywod a 257 yn ffyrdd a thir di-ffrwyth.

4 'Morfa Genyf yw'r hen enw ar y cyttir (*common*), neu dir cyffredin, a oedd yn ymestyn o Glynnog (Fechan) i Afon Braint; (Pen-Lôn y gelwir yr ardal yn awr). Erbyn heddiw, y mae wedi ei rannu yn fân dyddynnau, ac yr oedd terfyn y fwrdeisdref yn rhedeg o Ben-y-wal ar hyd y Lôn Dywod, rhwng Tros-yr-Afon a Glan-yr-Afon, i Lammau y Rhudd-gaer, lle mae rhyd i groesi Afon Braint. Yr oedd y Maen Llwyd yn agos i Dal-y-Braich, a Llain y Groes-faen wrth ymyl y Groes-faen a safai ar ganol y pentref, a elwir "Y Groes" hyd heddiw. Lled sicr yw fod y tiroedd a elwid gynt yn Hendre Rhosyr yn gorwedd i'r gorllewin a'r de-orllewin o'r pentref, ac yn cyrraedd o'r Tyddyn, heibio i'r Hendre Fawr, Ty'n-y-Coed, Tŷ'n-y-cae, Rhedyn Coch, Cefn Bychan a thyddynnau eraill, hyd Fryn Madog.' - *Hanes Niwbwrch* gan O.W. tud. 7.

/34/Tystiodd beili diwethaf y Gorfforaeth, amaethwr bron yn 80 oed, ei fod wedi cylch-gerdded y terfynau yn aml yn ystod 60 mlynedd, a bod y terfynau wedi eu nodi gan ffyrdd, cloddiau a cherrig. Ymddengys i'r cylch-gerdded olaf fod oddeutu 1826.

Ychwanegir yn y fan hyn derfynau y Rhandir, a chafwyd hwy o ffynhonnell arall:

"Lon Bodfel, yr hon sydd a'i phen yng nghoed Cefnmawr Isaf, ac yn cyrraedd i'r Hafoty, yr hwn le a elwir yn awr Glyntêg. Mae y Rhandir o'r ffordd hon i derfyn Treaseth yn cynnwys y lleoedd a ganlyn: - Glanmorfa, Nŷth y Cacwn, Tŷ Lawr, Telgoch, Penybryn, Cae Ocyn, Rhual, Tŷ'nbuarth, Digoed, Tŷ'npwll, Tyddyn Isaf, Hengaefawr, Hengaebach, Tanygraig, Hen Tyddyn Uchaf, Tŷ'nycoed, Berllan, Bengyl, Hendrewen, a Crochan Caffo, ynghyda holl anedd-dai Llanguaffo, sydd ar ochr orllewinol y briffordd. Mae y morfeydd sydd yn gysylltiol â'r lleoedd uchod yn cyrraedd o Lôn Pont Marcwis i blwyf Niwbwrch. Mae y Rhandir hwn i gyd ym mhlwyf Llangeinwen, ond bod braich o blwyf Niwbwrch yn rhedeg rhwng y Rhandir a Llangeinwen."

Yn llyfr y Gorfforaeth ceir y cofnod a ganlyn:

"2nd May 1811. Evan Lloyd, mayor; John Griffith and William Thomas, bailiffs; and Robert Prichard, Recorder. The Charter of this Corporation, having been lately obtained from the British Museum in London, is now produced in Court, together with the bills of expenses for obtaining the same, amounting to , 28 2s. 0d.; it is further ordered by this Court that the rent of the rabbit warren for the last year amounting to , 23 be now received and paid over to Mr. Robert Prichard, the Recorder, in order that he may apply the same in part discharge of the above sum of , 28 2s. 0d."⁵

Cyflwynwyd y copi o'r siarter y cyfeirir ati uchod i law Mr. Lloyd y Maer, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ac a law-nododd y cofnod. 'Erbyn hyn mae ef yn farw, ac ni ellir cael unrhyw wybodaeth ynghylch y siarter gan ei fab etifedd, sef y Parchedig Evan Lloyd o Faes-y-Porth'. Deallid yn ddiweddarach fod y siarter wreiddiol ymysg y *Records of Chancery* ynghadw yn Nhŷr Llundain.⁶

Pan gynhelid unrhyw lysoedd yn y fwrdeisdref, y maer a fyddai'n llywyddu ynddynt. 'Ond maent wedi llwyr ddarfod, ac nid oes maer newydd wedi ei benodi er 1814'.

5 Teg yw tybied mai i T. Caley o Grays Inn, Llundain, yr ymddiriedwyd y gwaith o sicrhau y siarter (neu ei hanes); gweler ei lythyr &c. dyddiedig 29 Medi 1810, yn Cardiff MS. 4236, ff.27, 28, 31.

6 Anfonodd Owen Owens, a fu'n giwrad yn Niwbwrch, mewn llythyr dyddiedig 10 Gorffennaf 1788 at John Hughes, siopwr yn Niwbwrch, iddo ddod ar draws siarter Niwbwrch, ac amgaeodd gopi ohoni - *Essay on Anglesey*, by Rev. Peter Bailey Williams, yn Eisteddfod y Gwyneddion am 1832, (London 1839), tud. 83.

/35/Dyma'r cofnod olaf yn llyfrau y Gorfforaeth:

“1814, July 18. Memorandum, that the sum of ,23 being a year's rent of Newborough rabbit-warren, due 25th day of March last, was paid into the hands of the Rev. Evan Lloyd, the mayor, towards the expenses of the lock-up house, the school, etc.”

Yn y cyfarfod diwethaf hwn, terfynodd bodolaeth y Gorfforaeth i bob pwrpas ymarferol mewn dull nodweddiadol o dymer ac arferion ei aelodau. Dywedir fod y Maer wedi ceisio cydsyniad y bwrdeisiaid i rhyw drefniant i rannu ac i amgau y comins y tu fewn i'r fwrdeisdref, er mwyn osgoi côst *Act of Parliament* oedd y pryd hynny mewn bwriad.

Gwrthododd y bwrdeisiaid gydolygu yn y rhannu; dywedodd y Maer oni wnaent na ddeuai ef byth ar eu cyfyl wedyn, a chan fod y Cofiadur yn gweled y bwrdeisiaid mor afrywiog, gwnaeth yntau fel y Maer. Bu'r ddau swyddog cystal â'u gair. Yn fuan ar ôl hyn, pasiwyd Deddf Cau'r Tir gan y Senedd, a chanlyniad hyn oedd cwtogi hawliau'r bwrdeisiaid ynglŷn â'r comins, yn arbennig ynglŷn â chasglu mawn a morhesg, yn gymaint felly nes gwneud yr ardal yn dlotach nag y bu erioed.

Nid yw llyfr cofnodion y Gorfforaeth ar gael, ond ceir “Minutes of the Corporation of Newborough” yn llawysgrif Porth-yr-aur 13801. Yn wir, nodiadau byrion, nid cofnodion mohonynt, wedi eu hysgrifennu weithiau mewn inc, bryd arall mewn pensel blwm. Dyma hwy yn Saesneg - fel y'u hysgrifennwyd:

1754	Oct. 21	Burgesses & Jury concerning a right to ye common.
1769	May 23	The Jury to view ye Boundaries &c. Money due for sed commons applied by Birggeses & Rabbits set for £ 1.2. 0 by the Bailiffs.
1771	May 14	The Jury to view the Boundaries of the commons and Gorse preserved.
1772	June 16	Town claim to ye commons by opening of gutter &c.
	Sept 21	A white Mare taken as a stray.
1778	Dec. 1	Right to cut Turf & rushes within ye Liberties of the Town.
1779	Oct. 28	Right to Rushes from Burgesses' Land &c.
1782	24 Jany.	Warren set for £1 1. 0.
1785	26 July	Warren set for 7 years; Gorse claimed from the commons; Limestone claimed from Traeth Melynog.
1786	July 4	Burgesses to ascertain ye Boundaries of ye Commons Rabbit Warren set to Col. Peacocke.
1787	May 22	Rent recd for Warren.
1788	Apl. 17	Right to ye Commons acquired by ye Burgesses.
1789	May 20	Rabbit warren set for 7 yrs -30/- p. ann.

1790	May 13	Warren.
	Dec. 30	Right to Gorse.
/36/1791	Apr. 11	Warren.
	Oct. 25	Right to Gorse.
1793	May 20	Warren set for £1. 10. 0. Sods sold by ye Burgesses to Ld. Uxbridge.
	Nov. 15	Rushes claimed.
1794		Warren & Sods. Commons per [?ambuladed].
1795		Common Pound. Stray Sheep taken & money paid for ye use of the Corporn.
1799	May 23	Warren.
	Oct. 22	Sods cut by the Burgesses. Others to be punished.
1801	Apl. 7	Strangers not to cut Rushes upon the Commons.
	Dec. 28	Warren set to Wm. David for 7 yrs - £2 p. ann.
1803	May 30	Sods &c. not to be cut.
1804	June 22	Agreed by Jury that those paying Scot & Lot to cut Sods.
1808	Nov. 4	Rent of Warren.
1809	Jan. 26	Warren pd for & let for 7 yrs for 15s. p. ann.
1810	July 26	Warren let to Evan Prichard for 7 yrs - 23s. p. ann.
1811	May 2	Warren paid for; ascertain boundaries.
1812	May 7 by Owen Wms.; Boundaries.
1813	Apl.	Rent of Warren pd 23s.
1814	July 18	Do. pd 23s.

Etholid dau feili o fysg y bwrdeisiaid eu hunain bob blwyddyn ar Wyl Fihangel; er enghraifft, yn 1810 dewiswyd y beiliaid gan y maer, y beiliaid, y cofiadur a 13 o fwrdeisiaid. Ond ar ôl hynny aeth pethau yn ddirfrefn. Yn 1811 gadawyd i'r beiliaid barhau yn eu swydd am flwyddyn wedyn, pan benodwyd rhai newydd gan y maer, un beili a'r cofiadur. Ar 3 Rhagfyr 1813 pasiwyd rheol; 'o hyn ymlaen fod y maer ar y pryd i'w awdurdodi i benodi neu enwi un beili ac un cwnstabl i'r Gorfforaeth, ac fod y cyfryw feili a chwnstabl i gael y fraint o enwi eraill i wasanaethu yn yr un swydd gyda hwy'.

Nid oedd cymhwyster arbennig yn angenrheidiol i ddal y swydd o gofiadur; fe'i penodid gan y maer, y beiliaid, a'r bwrdeisiaid, ac yr oedd i aros yn ei swydd cyhîd ag y byddai ei wasanaeth yn foddhaol. Dewiswyd Mr. Robert Prichard yn gofiadur yn lle Mr. John Hughes ar 3 Rhagfyr 1813.

Gallai unrhyw ddyn parchus o'r trigolion ddod yn fwrdaes ond iddo gael ei gynnig gan fwrdaes, ei dderbyn gan y maer a'r beiliaid a'r bwrdeisiaid, a thalu y swm o 2/6. Yn ôl y cofnodion ymddengys fod yno oddeutu 20 o fwrdeisiaid, heblaw'r swyddogion.

Ymddengys fod llysoedd y fwrdeisdref mewn blynyddoedd a fu yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac, yn ôl yr hen gofnodion, fod cryn waith yn cael ei wneud

ynddynt, a'r beiliaid a'r cofiadur a lywyddai yn y llysoedd hyn. Ond er 1780 ni chynhaliwyd yr un /37/llys i orfodi pobl i dalu ei dyledion,⁷ 'ac ni welwyd llys o unrhyw fath yn amser y cofiadur presennol, hynny yw, er Rhagfyr 1813'.

Wedi darfod cynnal llysoedd, penodwyd y pedwar cwnstabl gan ustusiaid y sir.

Yr oedd yr hen *mace* o arian yng nghadwraeth y beili,⁸ a chanddo ef hefyd yr oedd y mesurau a'r glorian o bres. Cymerodd y cofiadur feddiant o'r sêl hynafol fel gwystl am fod y Gorfforaeth, 5 yn ei ddyled am ei wasanaeth.

Yr hen arfer oedd i'r beiliaid godi toll ar ddiethriaid am nwyddau a werthid yn y ffeiriaid a'r marchnadoedd, ond ni chynhaliwyd na ffair na marchnad yma er cyn 1780. Ni fu yr un carcharor yn y rheinws er 1795, ac erbyn adeg ymchwiliad y dirprwywr yr oedd John Jones, *grocer*, wedi meddiannu'r rheinws fel *warehouse* i'w nwyddau, a hawliai hi fel ei eiddo personol.

Yn flaenorol i'r Inclosure Act 55 Geo. III (1815), gwneid defnydd mawr gan y bwrdeisiaid o'r tir comins eang a orweddaid rhwng Niwbwrch a'r môr, a hefyd gan lawer nad oedd ganddynt diroedd wedi eu hamgau. Yn pori ar y comins hyn, hâf a gaeaf, gwelid ceffylau, gwartheg a defaid. Byddai ambell un yn troi yno dri neu bedwar o geffylau, wyth neu ddeg o wartheg, a thua cant o ddefaid.

Sicrhawyd hefyd lawer mil o lwythi o fawn bob blwyddyn gan y bwrdeisiaid, heblaw digonedd o forhesg i wneud matiau, sef prif foddion cynhaliaeth tlodion y fwrdeisdref ar hyd y blynnydoedd. Ar y comins hefyd yr oedd y gwninger,⁹ wedi ei gosod ar brydles gan y Gorfforaeth dan ardreth, yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn rhwng, 10 a, 25: y swm olaf yma oedd yr ardreth yn 1811. Defnyddid y rhenti hyn gan y maer neu'r beiliaid er budd y Gorfforaeth. Ni fu yr hawliau hyn erioed mewn amheuaeth, ac yn wir cydnabyddir hwy yn y rhagymadrodd i'r Ddeddf Amgau.

Y DDEDDF CAU'R TIR.

Ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif parodd y cynnydd ym mhoblogaeth Prydain Fawr yn adeg y Chwyldroad Diwydiannol, ynghyda'r rhyfel â Ffraingc, i brisiau bwyd a nwyddau eraill o bob math godi yn gyflym. Effaith hyn ydoedd diddordeb ychwanegol mewn amaethyddiaeth. Ffurfiwyd Cymdeithas Amaethyddol yn /38/1793 i wneud ymholiad i sefyllfa amaethyddol y wlad, a phenderfynwyd amgau

7 Cynhaliwyd llys mewn tí (? Rhouse) ar 16 Tachwedd 1736 pan gwynai Griffith William, *yeoman*, yn erbyn John Williams saer, am ddyled o 39/112 - Llsg. Porth-yr-aur 11033, tud. 1. Yn yr un llsg. (tt.2,3) rhoddid cyfarwyddiadau i Glerc Tref Niwbwrch sut i weithredu mewn achos o dresmasu &c. Ar 9 Ebrill 1791 ceir bod Ellin gwraig Hugh Thomas, gwehydd, yn tystio ar ei llw fod ei gwr yn enedigol o blwyf Niwbwrch - Llsg. Porth-yr-aur 11035. Ceir enghreifftiau cyffelyb yn llsg. 11036, 11037, 11038, 11038a.

8 Fy nhaid, Owen Owens, y 'Rhouse, oedd y beili hwn, ac yn ei dí ef y cedwid holl *regalia* y Gorfforaeth. Tua deugain mlynedd yn ôl rhoddwyd hwynt yn Sefydliad Prichard-Jones yn Niwbwrch.

9 Latin *coningeria* (rabbit-warren).

cytiroedd i gynhyrchu mwy o fwyd. Rhwng 1801 a 1845 pasiodd Tí'r Cyffredin oddeutu dwy fil o gyfreithiau i'r amcan hwn.¹⁰

Ar 30 Tachwedd 1814, cynullwyd cyfarfod o berchenogion tiroedd a feddai hawl i ddefnyddio comins plwyfi Llanbedr Newborough a Llangeinwen, gan Anthony Poole, i'r amcan o ystyried cynllun o Fesur i'w osod ger bron y Senedd i amgau a rhannu oddeutu 2300 acer o dir comins yn y ddau blwyf. Yr oedd rhybuddion ynghylch amser a lle yr holl gyfarfodydd i'w gosod ar ddrysau y ddwy eglwys blwyfol ac i'w hysbysebu yn y *North Wales Gazette* o leiaf bythefnos cyn pob cyfarfod o'r fath, a'r cyfarfodydd hyn i'w cynnal yn un o'r ddau blwyf neu o fewn wyth milltir i'w terfynau. Gofynnid i bawb a hawl ganddo ar y comin neu ynddo, i anfon y cyfryw mewn ysgrifen i'r Dirprwywr yn y cyfarfod cyntaf neu'r ail. Hawliodd Robert Prichard o Lwydiarth Esgob, Cofiadur y Gorfforaeth, 391 acer o dir comins a "waste lands" ar ran Corfforaeth Niwbwrch, mewn llythyr dyddiedig 24 Awst 1815, i'r Dirprwywr John Maughan.¹¹

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf i roddi'r Ddeddf mewn gweithrediad yn y 'Rhouse, tí Owen Owens, Niwbwrch, ar 28 Awst 1815, am 11 o'r gloch yn y bore.¹² Anfonodd Arolygwyr y Tlodion, ar 24 Gorffennaf 1816, gais am chwe acer o'r tiroedd oedd i gael eu hamgau.¹³ Hysbysodd y Dirprwywr y byddai iddo ystyried y ceisiadau a'r gwrthwynebiadau iddynt ar 30 Gorffennaf 1816 yn y Panton Arms, Pentraeth.¹⁴ Tridiau cyn hynny yr oedd Corfforaeth Niwbwrch wedi anfon gwrthwynebiadau i hawliau rhai perchenogion,¹⁵ ac yn hawlio y gwninger i'r Gorfforaeth.¹⁶ Ar 23 Mehefin 1817 mynnet hefyd mai eu heiddo hwy oedd yr holl freintiau maenoraidd ar y tiroedd i'w hamgau;¹⁷ ymhen deuddydd wedyn rhoddwyd rhybudd yn gwahardd torri tywyrch ar y tiroedd hyn.¹⁸

Mewn llythyr yn gofyn barn cyfreithiwr yn Llundain, John Richardson, o'r Middle Temple, ar eu hawliau fel Corfforaeth, dywedent:

"There is a very extensive marshland and common within the parish nearly adjoining the town and borough of Newborough, over which common the Corporation has exercised manorial rights by collecting estrays, by selling sods and gorse growing upon the said common and by letting limestone quarries, yearly walking the boundaries of the said common, setting a /39/rabbit warren nearly over the whole of the said common and by preventing encroachment from

10 *The Great Enclosures of Common Lands*, by Ivor Bowen.

11 Llsg. Porth-yr-aur 13783

12 "North Wales Gazette," 10 August, 1815.

13 Llsg. Porth-yr-aur 13786.

14 *Ibid.* 13787

15 *Ibid.* 13789.

16 *Ibid.* 13792

17 *Ibid.* 13790

18 *Ibid.* 13788.

being made upon any part thereof. The Herbage of the said common being grazed by the Burgesses residing in the said parish of Newborough with the tenants of the landed proprietors in general in the said parish.”¹⁹

Yr oedd y Gorfforaeth wedi sicrhau gwasanaeth cyfreithiwr lleol, John Evans o Gaernarfon, i baratoi eu hachos ac i ddadlau eu hawliau ger bron y Dirprwywr yn 1815-7, ac ar 7 Mehefin 1823 cawsant ei hi am , 17. 18. 2.²⁰ Erbyn 1817 yr oedd gwaith yr amgau yn agosau at gael eu gwblhau, oherwydd ar 26 Tachwedd 1817 bu cyfarfod yn y tí a elwid “The Hare” yn Niwbwrch, er rhoddi cyfle ymlaen llaw i’r perchenogion weled y *map* o’r tiroedd i’w hamgau.²¹ Rhoddwyd awdurdod i’r Dirprwywr, gyda chydysniad dan Ustus Heddwch, i gau a throi y ffyrdd (os byddai raid) ac i gynnwys pridd y ffyrdd a gaeid fel rhan o’r tiroedd i’w hamgau. Yr oedd yr holl gostau ynglŷn â pharatoi y Ddeddf hon a’i gosod mewn gweithrediad i’w talu gan y personau a gafodd y tiroedd, ac eithrio y Brenin, *surveyors* priffyrdd y ddau blwyf, ynghyda’r rheithoriaid, wardeniaid eglwysig a Goruchwylwyr y Tlodion yn y ddau blwyf. Gorchynnwyd i’r Dirprwywr roddi tir, neu diroedd, heb fod dros chwe acer i Oruchwylwyr y Tlodion, a hefyd gorfodid pawb a gafodd dir i’w amgau i wneud hynny ar eu cost eu hunain ac yn y dull a’r modd a osodwyd i lawr gan y Dirprwywr. Rhaid oedd cyhoeddi y ddyfarniad²² cyn pen tair blynedd ar ôl pasio’r Ddeddf, a’i chadw mewn blwch yn swyddfa Clerc yr Heddwch ym Môn; ac yr oedd copiau ar femrwn i’w rhoi ynghadw yn eglwysi plwyfol Llanbedr Newborough a Llangeinwen.²³ Ond ni ddaethpwyd i ben ar rannu cytiroedd caeedig plwyf Niwbwrch cyn 1843.

Nid oedd dim yn y Ddeddf yn awdurdodi rhannu nac amgau comin Aber-menai, a oedd i barhau mewn cysylltiad ag Aber-menai *ferry*.²⁴

Bu chwilio diwyd ers llawer blwyddyn bellach am Adroddiad y Dirprwywr; nid oedd yn yr un o’r tri lle y cyfeiriwyd atynt eisoes, ond deuwyd o hyd iddo²⁵ yn nechrau 1948 ymysg hen lawysgrifau eraill yn swyddfa’r Cyngor Sir yng Nghaernarfon! Beth bynnag oedd y rheswm, ni chynhaliwyd gwerthiant cyhoeddus o’r tiroedd i’w hamgau, hyd 3 Medi 1832, a hynny yn “Holland /40/Arms.” Bu’n rhaid aros am naw mlynedd wedyn cyn cael llunio’r ddyfarniad.

19 Llsgrf. Porth-yr-aur 13793

20 *Ibid.* 13803

21 “North Wales Gazette,” 30 October, 1817.

22 Adroddiad y Dirprwywr o’r modd y cariodd allan y Ddeddf arbennig hon.

23 A.A.S. *Transactions* (1926), pp.59-64

24 Dywedir fod “ffordd newydd wedi ei gwneud o Niwbwrch i Daly-foel ar draws than o’r comin a rennid ar y pryd” (tua 1816); “effaith y ffordd hon, a amgeuwyd a chloddiau o bobtu, ac a wnaed felly’n hwylusach i yrru anifeiliaid ar hyd-ddi, fu i Aber-menai’n raddol beidio a bod yn borthfa.” - *Hanes Mon*, gan E. A. W. tud. 48.

25 Gan yr awdur.

Yn y rhagymadrodd iddo, cyfeirir at Ddeddf Cau Tir flaenorol a basiwyd yn 1801,²⁶ ac hefyd at rybuddion (i ymddangos yn y *North Wales Gazette*) gyda golwg ar y tiroedd y bwriedid eu hamgau yn unol â Ddeddf Cau Tir (1815). Yna mynegwyd mai’r Brenin oedd Arglwydd maenor Rhosfair, a hawliai Thomas Wyatt²⁷ mai ef oedd arglwydd maenor Celliniog. Enwyd maer, beiliaid, a bwrdeisiaid Niwbwrch fel rhai yn meddu rhyw hawliau ar rannau o’r comins, a hawlwyd eraill a enwyd oedd y Gwir Anrhydeddus Frederick Arglwydd Boston, y Gwir Anrhydeddus Thomas John Arglwydd Newborough, Syr William Bulkeley Hughes, Thomas Assheton Smith, Owen Williams, Thomas Wyatt a James Greenfield, Ysweiniaid; y Parchedig Edward Hughes a’r Parchedig Edward Lloyd, ynghydag amryw eraill oedd yn dal tiroedd, ac felly yn meddu hawliau cyffelyb ym mhlwyfi Llanbedr Newborough a Llangeinwen. John Maughan o Luton, sir Bedford, a benodwyd yn Ddirprwywr²⁸ a Richard Yales o sir Drefaldwyn yn *surveyor*,²⁹ gydag awdurdod i’r Dirprwywr gyflogi clerics³⁰ i’w gynorthwyo.

Yn dilyn, ceir y rhestr o enwau perchenogion newydd y tiroedd a amgaewyd, gyda rhif pob clwt o dir (gweler y *map*), ei faint, ac, weithiau, y pris a dalwyd am dano.

<i>Name</i>	<i>No. of Allotment</i>	<i>Area a.r.p.</i>	<i>Cost</i>
Rt.Hon. Lord Boston	1	150.3.0	
Richard Pierce	2	66.3.33	
Hugh Edwards of Regent St. London	3	50.1.39	
Rev. Hugh Wynne Jones & William Lloyd	4	76.1.0	
The Poor of Newborough	5	10.0.0	
Humphrey Owen of Rhuddgaer	6	134.3.0	£102
Lord Newborough	7	175.2.20	
do.	8	325.1.10	
Rt. Hen. William Lewis Lord Dinorben	9	63.2.13	
do. do.	10	11.0.30	
David Roberts Maes y Gerchdir	11	46.2.19	£35
do. do.	12	32.3.9	£30
Richard Rowlands	13	7.1.30	
Anne Williams spinster	14	4.0.12	
William Thomas	15	16.0.25	
David Roberts Maesygerchdir	16	29.2.25	£70

26 Hyd yn hyn methwyd cael hyd i honc.

27 Tybed oedd hwn yn rhyw berthynas i James Wyatt, cynllunydd rhannau o Plas Newydd yn 1795 ?

28 I dderbyn tâl o dri gini y dydd.

29 Talwyd deg punt iddo am wneud *plan* o’r holl diroedd amgaewyd; penodwyd Rowland Williams yn gynorthwywr iddo.

30 William Jones gafodd y gwaith hwn - “North Wales Gazette,” 30 October 1817.

William Davies Penybont Malltraeth	17,18	8.2.19	£31
/41/Richard Rowlands	19	1.2.0	
John Jones	20	1.1.28	
Owen Jones Beaumaris Gent	21	2.1.8	
do. do.	22	4.6.0	
Robert Thomas of Newborough	23	2.3.24	
Rt. Hen. Edward Pryse Baron Mostyn	24	2.2.16	
John Williams, Newbro&William Hughes, Penllyn Newbro	25	1.2.32	
David Roberts Pughe	26	1.2.30	
Morris Jones	27	1.3.0	
Mayor Bailiffs&free Burgesses, Town&BoroughNewborough	28	2.1.0.	
John Jones	29	1.0.0	
Thomas Jones	30	1.0.0	
John Jones of Newborough	31	2.1.11	
William Williams	32	3.1.0	
Churchwardens&overseers, guardians or trustees of poor of parish of Trefdraeth	33	3.1.0	
William Jones & Owen Williams	34	8.2.12	
Catherine Roberts widow	35	14.2.1	
Robert Hooper Parnell esquire	36	120.3.30	
Thomas Peers Williams esquire	37	38.1.13	
do. do.	38,39	24.1.13	£81
Most Hon. Henry William Marquess of Anglesey	40	7.1.27	
William Thomas Tylawr yeoman	41	3.2.20	
Hugh Williams of Gwalchmai	42	1.3.0	
John Jones of Newborough	43	1.1.25	
John Thomas Llain Shenkin yeoman	44	1.1.8	
John Jones	45	1.2.4	
John Thomas & David Thomas	46	2.0.21	
Sir John Thomas Stanley Baronet	47	1.3.20	
John Williams of Newborough tailor	48	1.0.20	
Rt. Hen. Spencer Bulkeley Lord Newborough	49	20.1.16	
John Jones Erw Wen yeoman	50	2.3.0	
Richard Rowlands	51	2.3.8	
Owen Williams	52	4.0.0	
Thomas Griffith	53	16.3.0	
Rt. Hen. William Lewis Lord Dinorben	54	239.1.0	
William Griffith of Carnarvon mariner	55	47.2.23	
Evan Williams .	56	2.0.10	
Henry Lewis	57	5.2.0	
Overseers Guardians or other Trustees of poor, parish Newbro	58	0.2.20	
William Griffith of Carnarvon mariner	59	3.3.33 /42/	
Rev. Henry Rowlands Clerk	60	16.2.0	

Sir Richard Bulkeley Williams Bulkeley Baronet	61	14.3.0
Richard Williams	62	1.1.1
Curate for time being of chapel or chapelry of Penrhoslligwy	63	41.3.12
Edward Jones of Carnarvon gent	64	4.1.0
Jones widow	65	4.1.37
Griffith Jones	66	3.2.1
?	67	25.0.0
?	68	?
Rt. Hen. Lord Dinorben	69	83.3.10
Robert Hooper Parnell esquire	70	48.1.10
William Lloyd	71	6.0.32
Edward Williams	72	5.3.1
Robert Jones	73	4.3.0
Miller gentlemen	74	20.1.18
Gwilim Lloyd Wardle esquire	75	14.0.0
Mary Prichard	76	3.3.1
William Davies by purchase from Margaret Jones widow	77	2.1.10
Hugh Roberts	78	2.1.14
Hugh Williams	79	4.1.17
Hugh Roberts	80	3.0.15
do.	81	1.2.38
Rt. Hen. Spencer Bulkeley Lord Newborough	82	6.3.14
Richard Anthony Poole of Carnarvon gentleman	83	3.1.24
Hugh Williams	84	1.3.38

Yr oedd maer a beiliaid Niwbwrch wedi cydsynio â'r Act; hawliant mai hwy oedd perchenogion y gwninger a rhan o'r comins er yn agos i ddeugain mlynedd, a'u bod wedi gosod y cyfryw am ardreth flynyddol, sef 23/- y flwyddyn am y pum mlynedd diwethaf.³¹

O dan amodau yr Act yr oedd oddeutu can acer o dir i'w gosod i'r bwrdeisiaid, a gofynwyd iddynt, fel i bawb arall, dalu eu rhan o'r costau, ond gan na wnaethant, gwerthwyd y tir. Felly daeth eu cwninger (*rabbit-warren*) yn feddiant i Arglwydd Newborough, Arglwydd Boston a Mr. Pierce, a rhannwyd y tiroedd sy'n cynnwys y gwninger rhyngddynt.

Petai'r bwrdeisiaid wedi cael y tir hwn, ni fuasai hynny yn ddim o'i gymharu â'r manteision a gollwyd drwy'r Ddeddf.³² /43/Wedi pasio'r Act collwyd pob hawl ar y tiroedd a amgaewyd oddieithr eiddo'r perchennog ei hun. Dirwyd hyd at 5 unrhyw un a geid yn euog o dorri mawn, neu eithin, neu o godi tywod neu dywyrch, a'u cario; oni allai dalu y ddirwy, rhoddid ef yng ngharchar cyffredin y Sir am dymor heb

³¹ Llsgrf. Porth-yr-aur 13802.

³² *Commissioners=Report on Municipal Corporations*, Appendix No. 1, vol. XXIII, (pub. 1835), p.14.

fod yn hwy na thri mis. O'r blaen ceid y morhesg am ddim, ond bellach rhaid oedd ei brynu am 3/- y llwyth.³³ Cynyddodd treth y tlodion yn ddifawr. Y swm gasglwyd yn 1815 oedd , 24. 2. 0; yn 1825 yr oedd yn , 158. 1. 0, ac yn 1829 yn , 178. 11. 0.³⁴ Gwelir felly fod cau'r tiroedd, drwy'r wlad yn gyffredinol, yn gam mawr â'r tlodion. Nid oedd ganddynt y moddion i wrthwynebu yr amgau ond trwy anfon *cross-petition* i'r Senedd, ac nid oedd ganddynt arian i dalu am hynny.

Ceir rhyw gymaint o wybodaeth am nifer y dynion oedd yn byw yn y plwyf yn ystod chwarter cyntaf y ganrif ddiwethaf oddi wrth restrau enwau'r holl ddynion, rhwng 18 a 45 mlwydd oed, a oedd yn agored i gael eu galw at y Militia.

Dyma restr Niwbwrch ar 9 Hydref 1810:

Hugh Williams	Frondeg	William Williams	Taylor
Evan Williams	do.	John Williams	Taylor
Howell Moses	do.	Owen Hughes	Tyddyn bach
Robert Thomas	Clinteg	William Williams	Lon dywod
John Jones	Brynia	John Williams	Lon dywod
Richard Jones	Brynia	Henry Morris	do.
Hugh Hughes	Shop	Thomas Evans	Tyncoed
Richard Thomas	Cerrigmawr	Richard Morris	Miller
Hugh Jones	Tymain	William Roberts	Currier
Owen Roberts	Plaspella	Thomas Williams	Siamber newydd
Evan Jones	Tynlone	John Jones	Hare
Hugh Roberts	Lone	Humphrey Thomas	Hare
William Thomas	Sign hare	Griffith Williams	Taylor
Robert Jones	Rhenc	Lewis Owen	Taylor
John Williams	Malltraeth	St. John Jones	Gallt rhedyn

Yn dilyn ceir y rhestr am y Flwyddyn 1825:

Hugh Williams	Frondeg	Lewis Jones	Glasgoed
Hugh Williams Jr	Frondeg	Evan Jones	
Evan Williams	Frondeg uchaf	Hugh Evans (Jr.)	Bercyn
Richard Williams	do.	William Jones	Tynlon bach
John Jones	Glanrhos	Griffith Griffith	Pendref St.
John Roberts	Tynypwrpas	Hugh Williams	Tycrwn
Robert Roberts	Tynrhos	John Thomas	Weaver
Griffith Jones	Neuadd wen	John Williams	Taylor
Thomas Jones	Melin ffrwd	William Hughes	Rhenc /44/
John Roberts	Tymawr	Hugh Jones	Shop

Robert Roberts	do.	Richard Jones	Rhenc uchaf
Thomas Jones	Cefn bychan	William Rowlands	Tyddyn
Owen Jones	Hendy	Robert Jones	Tyddyn
William Thomas	Bryn sink	Owen Roberts	Tyddyn y graig
John Thomas	Rhedyn coch	Hugh Roberts	Penrhos
Rowland Hughes	Rhedyncoch bach	Thomas Hughes	Tyddyn bach
William Williams	Rhosydd	William Owen	House
Morris Williams	do.	Owen Owens	do.
Owen Hughes	Foty uchaf	Thomas Jones	Gwningerfawr
Evan Williams	Tyn lliart	Richard Jones	Shoemaker
David Rowlands			

/45/Erbyn gorffen cario allan y Ddeddf cau'r Tir yr oedd sefyllfa wleidyddol a chymdeithasol yr hen fwrdeisdref wedi newid yn fawr lawn fel y gellir casglu oddi wrth y rhestr etholwyr sy'n dilyn:

RHESTR O ETHOLWYR NIWBWRCH, MÔN, YN NHACHWEDD 1836.³⁵

<i>Enw yn llawn.</i>	<i>Trigfan.</i>	<i>Natur y cymhwyster.</i>	<i>Lle, neu enw, Neu tenant yr eiddo.</i>
Davies, Escw	Newborough	Lease of House, Gardens &c for years	High St. Newborough.
Edwards, Hugh	Quadrant, Regent St., London	Freehold House & Cottages	Glasgoed, William Jones & Others.
Griffiths, William	Bangor St. Carnarvon	Freehold Farm	Tan'rallt.
Hughes, John	Rhedyn Coch	Land as occupier	Rhedyn Coch & Caellidiart.
Jones, John	Gallt y Rhedyn	Freehold Houses	'r Erw Wen, John Owen & Griffith Williams
Jones, John	White Lion	Freehold House	Pen Lon.
Jones, John	Tyddyn	Freehold Farm	Tir Morgan
Jones, John	Gorphwysfa	Freehold Houses & Land	Gorphwysfa.
Jones, Thomas	Brynhywydd	Land as occupier	Brynhywydd.
Jones, Richard	Brynia	do. do.	Brynia.
Jones, Robert	White Lion	Lease for lives of	

³³ *Commissioners' Report on Municipal Corporations*, Appendix No.1 vol. XXIII, (pub. 1835), p.18.

³⁴ *Ibid.* p.18.

Owens, Samuel	Tyn y Coed	House& Garden Lease for lives of Farm &Land	White Lion. Tyn y Coed.
Purnell, Robert John	King's Hill, Buesly, Gloucestershire	Freehold Lands	Brynia.
Pugh, David Roberts	Cochybig, Clynog, Carnarvonshire	Freehold Land & Cottages	Ty'n pant& Ty'n lon John Lloyd., Tan y bwch.
Parry, Henry	Bwlch, Llanfechell	Freehold House &Land	
Roberts, John	Aberffraw	Freehold Land	Caeau Ildiart.
Roberts, David	Maes y Ceirch-dir	Land as occupier.	Maes y Ceirch Dir.
Roberts, Owen	Tyn'r Allt	Land as occupier	Tyn'rallt.
Roberts, Evan	Plas	Freehold tenements & Lands	The Hare.
Thomas, William	Llwyn Yscaw	Freehold tenements & Land	Llwyn Yscaw.
Williams, Owen	No. 20 Stafford St. Liverpool	Freehold tenement & Lands	Gallt y Rhedyn.
Williams, Owen	Penrallt, Carnarvon	Freehold tenement & Land	Tyddyn y Graig.
Williams, Hugh	Fron Deg	Freehold & Cottages	Farm Dafarn Bridd, Francis Owen & Others.
Williams, Evan	do.	Land as occupier.	Fron Deg.
Williams, Evan	Tyn Llidiart	Freehold Tenements & Lands/46/	Tyn Llidiart.